



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwr



Cynnwys

Rhagair	4
Pennod 1: Arweinyddiaeth	5
Cydraddoldeb yng Nghymru	6
Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein Rôl fel Cyflogwr	6
Rheoli Perfformiad	6
Pennod 2: Sgiliau a Hyfforddiant	7
Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig	7
Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	9
Hyfforddiant Cydraddoldeb Arall	10
Y Gymraeg	10
Hyfforddiant Iaith	11
Hyfforddiant Galwedigaethol	11
Pennod 3: Darparu Adnoddau	12
Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2016	12
Dynion a Menywod yn y Gweithlu	22
Cyflogau	24
Gweithgarwch Recriwtio	24
Ceisiadau am Swyddi Nad Oeddent yn yr Uwch Wasanaeth Sifil	28
Ceisiadau am Swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil	30
Gweithgarwch Allgymorth	33
Cynlluniau Lleoliadau	33
Rhaglen Brentisiaeth	34
Edrych Tua'r Dyfodol	34
Pennod 4: Gwobrau a Chydnabyddiaeth	35
Gwobr Amrywiaeth Llywodraeth Cymru	35
Gwobrau Eraill/ Cydnabyddiaeth Arall	35
Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff	35
Meincodi Amrywiaeth yn y Gweithle	35
Arolwg Pobl 2016	36

Pennod 5: Y Dyfodol	38
Atodiad A: Ffigyrau Cynrychiolaeth y Gweithlu wedi’u Dadgyfuno yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig	39
Atodiad B: Ymadawyr yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig	43
Atodiad C: Data Cwynion a Disgyblu yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig	46
Atodiad D: Cyflog Dynion a Menywod yn ein Gweithlu	49

Rhagair

Pleser mawr yw cyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad â diwylliant cynhwysol ac amrywiol, lle mae gwahanol bobl yn teimlo'u bod yn perthyn, yn gwneud eu cyfraniad eu hunain ac yn mynegi eu hunain heb deimlo dan bwysau i gydymffurfio â stereoteip penodol. Mae gan bobl Cymru, yr ydym yn eu gwasanaethu, hawl hefyd i edrych ar Lywodraeth Cymru a theimlo'i bod yn eu cynrychioli hwy. Bydd y data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn o gymorth, unwaith eto, i roi ffocws i'n camau gweithredu yn y flwyddyn sydd i ddod ac yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad newydd i fod yn batrwm i eraill o ran yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol eleni ond dim ond y dechrau yw hyn ac, wrth inni edrych ymlaen tuag at 2016-17, bydd ein ffocws ar sut mae dod yn sefydliad sy'n batrwm i eraill erbyn 2020. I gefnogi'r uchelgais hwn, rwy'n disgwyl i'n gweithgareddau gyflymu ac i'n cyflawniadau barhau i dyfu wrth inni fapio ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant 2017 – 2020.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n rhan o'n rhwydweithiau staff ffurfiol ac anffurfiol ac sy'n rhoi cymaint o amser ac egni i roi cefnogaeth, anogaeth ac arweinyddiaeth. Mae llawer o enghreifftiau o'r gwaith rhagorol a wneir gan y rhwydweithiau hyn sy'n cynnwys: sesiynau ymwybyddiaeth o laith Arwyddion Prydain i staff; presenoldeb mewn digwyddiadau Pride; dathliadau Mis Dathlu Hanes Pobl Dduon a'n digwyddiadau blynyddol yn ystod Wythnos Cydraddoldeb. Mae clod arbennig yn ddyledus hefyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer meincnodi yn erbyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall eleni gyda chymaint o ymroddiad, ymrwymiad ac angerdd; mae symud i fyny i'r 17eg safle yn y DU a'r 4ydd safle yng Nghymru mewn un flwyddyn yn gamp aruthrol ac yn gwbl haeddiannol.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i'n meincnodi ein hunain yn erbyn sefydliadau eraill i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth eraill ac yn ymeginio i wella'n barhaus.

Hoffwn annog pawb i fwrw golwg ar y manylion yn yr adroddiad hwn a'r cyflawniadau sylweddol.



Gillian Baranski OBE

Pennod 1

Arweinyddiaeth

Mae gwaith wedi parhau eleni i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle, ac wedi cael ei gefnogi gan Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, Hyrwyddwyr Amrywiaeth a'r Arweinwyr Cydraddoldeb ar gyfer pob Grŵp Busnes.

Mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd yn sicrhau bod cynhwysiant yn y gweithle'n cael ei ystyried ar y lefelau uchaf yn y sefydliad. Mae'r Bwrdd, sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol, yn trafod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ffurfiol bob chwarter. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol hefyd yn glir iawn ynglŷn â'i ymrwymiad i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad.

Er mwyn gweithredu'r ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws Llywodraeth Cymru, fe sefydlodd Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chydraddoldeb (DISG) ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r aelodau'n cynnwys y pedwar Hyrwyddwr Amrywiaeth (aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil o bob un o'r Grwpiau Busnes), Cadeiryddion Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff, Ochr yr Undebau Llafur ac Adnoddau Dynol. Diben y Grŵp yw:

- Pennu a llywio agenda amrywiaeth a chydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n uchelgeisiol, yn ddiwyro ac yn cael ei rheoli.
- Pennu amcan amrywiaeth a chydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Cymru fel cyflogwr i'w gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020.
- Cytuno ar gynllun gweithredu o ymyriadau a fydd yn cyflawni ein hamcan.

- Mynd ati'n weithredol i gefnogi ac arwain y broses o weithredu'r ymyriadau hyn.
- Cytuno ar y dangosyddion y byddwn yn eu defnyddio i asesu ein cyflawniadau a monitro cynnydd.
- Mynd ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd a chasglu adborth, gan ddefnyddio hyn i ddatblygu/newid ein cynlluniau lle y bo angen.
- Ymgysylltu'n eang ar draws y sefydliad i ddatlu amrywiaeth a'i sefydlu fel rhan annatod o bopeth a wnawn.
- Sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed ar faterion amrywiaeth a chydraddoldeb gyda rhanddeiliaid yn Whitehall ac ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Cyfarfu'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fisol rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Mawrth 2016.

Mae gan bob Grŵp Busnes Arweinydd Cydraddoldeb sy'n gyfrifol am gefnogi'r broses o gyflawni'r agenda amrywiaeth flaengar yn ei briod faes. Mae'r rôl yn eang iawn ei chwmpas, o gydgyssylltu digwyddiadau hyfforddi i gynghori ynghylch Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Arweinwyr Cydraddoldeb wedi bod yn cydweithio'n agos gydag Uwch Reolwyr i adrodd ar gynnydd o ran Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf Llywodraeth Cymru a datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod nesaf o bedair blynedd. Maent yn cwrdd yn fisol i rannu arfer gorau a thrafod materion cyffredin wrth iddynt godi.

Cydraddoldeb yng Nghymru

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ('rheoliadau 2011') i rym ar 6 Ebrill 2011 at ddiben gwella'r modd y cyflawnir dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus dan adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Rheoliadau 2011 yn gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r camau gweithredu a adnabuwyd fel rhan o'r Rheoliadau hyn wedi cael eu rhoi yn eu lle ac mae trefniadau adrodd bellach wedi cael eu sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth.

Mae Rheoliadau 2011 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth ac adrodd arni yn ôl nodweddion gwarchoddedig yn y gweithle.

Yn hanesyddol, bu gan Lywodraeth Cymru systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer casglu data ac adrodd arno. Er enghraifft, am beth amser cyn cyflwyno'r dyletswyddau newydd roeddem yn gallu mapio ein gweithlu a'n gweithgarwch recriwtio yn ôl oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred a thrwy wneud hynny roeddem yn mynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Wrth gwrs, nid dim ond er mwyn adrodd arni yr ydym yn casglu gwybodaeth, ond hefyd er mwyn cael syniad ble i hoelio ein sylw ar gyfer gwella.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Ein Rôl fel Cyflogwr

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu'r amcan cydraddoldeb ynghyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 o ran ein rôl fel cyflogwr. Yr amcan cytunedig, a luniwyd ac y cytunwyd arno gan yr Arweinwyr Cydraddoldeb a'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, yw: **“Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn batrwm i eraill o ran yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.”**

Amcan mewnol (Amcan 8) i Lywodraeth Cymru yw hwn, sy'n dangos yr ymrwymiad i sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn darparu amgylchedd teg a chynhwysol, lle mae gan bawb y cyfle i fod y bobl y maent am fod a gwireddu eu potensial. Mae camau gweithredu'n cael eu datblygu gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n helpu i gyflawni'r amcan hwn. Cafodd yr Amcanion Cydraddoldeb eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016 a chafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys camau gweithredu lefel uchel i gyflawni'r Amcan, ei gyhoeddi ar 15 Rhagfyr 2016. Mae'r Amcanion a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 i'w gweld yma: www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?lang=cy

Rheoli Perfformiad

Mae'r Map Perfformiad a Photensial (a adwaenir hefyd fel y Grid 9 Blwch) yn helpu'r sefydliad i adnabod a datblygu talent, a hefyd i ddeall ble mae'r bylchau o ran sgiliau er mwyn datblygu dull integredig o ddatblygu pobl.

Pennod 2

Sgiliau a Hyfforddiant

Data Hyfforddiant Craidd yn ôl Nodweddion Gwarchoddedig

Cynigiwyd nifer o gyrsiau yn 2015-16 trwy ein darparwr hyfforddiant craidd a'r rheiny wedi'u bwriadu i ddatblygu sgiliau staff ymhellach.

Mae'r manylion presenoldeb ar gyfer yr holl hyfforddiant craidd yn ôl nodweddion gwarchoddedig i'w gweld isod:

Tabl 1 – presenoldeb mewn hyfforddiant craidd yn ôl nodweddion gwarchoddedig

Rhywedd				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	6480	64	2270	62
Dynion	3660	36	1420	39
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Oedran				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
16-24	390	4	110	3
25-29	720	7	230	6
30-34	1290	13	420	11
35-39	1290	13	500	14
40-44	1360	13	500	14
45-49	1580	16	590	16
50-54	1580	16	570	15
55-59	1250	12	470	13
60-64	550	5	230	6
65+	130	1	60	2
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Anabledd				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Anabl	590	6	200	5
Ddim yn Anabl	9020	89	3290	89
Gwell Gen i Beidio â Dweud	350	3	120	3
Heb Ddatgan	180	2	70	2
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Ethnigrwydd				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Gwyn	9430	93	3430	93
Ethnigrwydd Arall	210	2	80	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	370	4	140	4
Heb Ddatgan	130	1	50	1
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Crefydd/Cred				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Cristnogaeth	4500	44	1630	44
Dim Crefydd/Cred	2470	24	820	22
Crefydd/Cred arall	350	3	140	4
Gwell Gen i Beidio â Dweud	2660	26	1040	28
Heb Ddatgan	170	2	60	2
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Cyfeiriadedd Rhywiol				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Heterorywiol	8410	83	3060	83
Rhywioldeb arall	300	3	100	3
Gwell Gen i Beidio â Dweud	1240	12	460	12
Heb Ddatgan	180	2	70	2
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Priodas a Phartneriaeth Sifil				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Priod/Mewn Partneriaeth Sifil	4660	46	1640	45
Sengl	2090	21	700	19
Statws Arall	820	8	310	8
Gwell Gen i Beidio â Dweud	0	0	0	0
Heb Ddatgan	2570	25	1030	28
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Beichiogrwydd/Mamolaeth				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Nac ydw	9880	97	3580	97
Ydw	260	3	100	3
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Rhywedd Genedigol yr un Fath				
	Presenoldeb		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%
Yr Un Fath	2670	26	820	22
Ddim Yr Un Fath	*	0	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	70	1	20	1
Heb Ddatgan	7400	73	2840	77
Cyfanswm	10140	100	3680	100

Hyfforddiant a gwblhawyd gan staff parhaol a staff dros dro dan y rhaglen graidd (mae'n cynnwys hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ac e-ddysgu).

Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. *Mae ffigyrau islaw 5 wedi cael eu dileu. Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu. Efallai na fydd cyfanswmiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r holl gyrsiau hyfforddi'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu prif-ffrydio drwyddynt draw.

Lansiwyd 'Raglen Menywod fel Arweinwyr' nwydd ym mis Ebrill 2015 a chafodd hon dderbyniad mor dda fel bod ail gohort wedi dechrau ym mis Hydref 2015. Roedd y rhaglen hon wedi'i bwriadu i gefnogi'r nod o gydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau yn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020 ac roedd yn agored i fenywod â pherfformiad uchel yn y Band Gweithredol.

Ym mis Rhagfyr 2015 lansiwyd y gyntaf o bedair rhaglen beilot a oedd wedi'u bwriadu i gefnogi a datblygu staff yn y rhwydweithiau amrywiaeth. Cwrs 2.5 diwrnod dros gyfnod o dri mis oedd y Rhaglen Datblygiad Personol

PRISM/LGBT+. Roedd y cyfranogwyr yn cael cynnig y cyfle i ddilyn Rhaglen Modelau Rôl Stonewall Cymru hefyd.

Ym mis Mawrth 2016, lansiwyd y Rhaglen Grymuso Personol, raglen datblygiad personol ar gyfer cydweithwyr anabl. Cwrs 2.5 diwrnod dros gyfnod o dri mis oedd hwn.

Fe ddechreuon ni hefyd ddatblygu rhaglen i gefnogi menywod ar bob gradd ac fe wnaed gwaith parhaus gyda'r Rhwydwaith Staff Ethnig Lleiafrifol ar raglen ddatblygu ar gyfer cydweithwyr sy'n perthyn i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Yn ystod 2015-16 trefnwyd fod dwy sesiwn newydd ar Ragfarn Ddiarwybod ar gael, ar ffurf Dosbarth Meistr a oedd yn orfodol i'r holl Uwch Weision Sifil a gweithdy a oedd ar gael i'r holl staff. Roedd y rhain yn ychwanegol at y dysgu ar-lein sy'n orfodol i'r holl staff os ydynt mewn swydd reoli neu ar banel recriwtio.

Fe wnaethom barhau i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth ar-lein trwy System Rheoli Dysgu Llywodraeth Cymru a Dysgu'r Gwasanaeth Sifil ar bynciau a oedd yn cynnwys Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth – y Ffeithiau; Ymwybyddiaeth o Anabledd; Hanfodion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Ymwybyddiaeth o LGBT+; Ymwybyddiaeth o lechyd Meddwl; Ymwybyddiaeth o Hil; Parch yn y Gweithle, Ymdrin â Bwlio, Aflonyddu a Gwahaniaethu a Dod yn Gyfaill Dementia.

Fe wnaethom hefyd gynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Urddas a Pharch ac Ymwybyddiaeth o Anabledd a Gofalwyr. Rhoddwyd sylw i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein hyfforddiant sefydlu gorfodol hefyd.

Hyfforddiant Cydraddoldeb Arall

Fe wnaethom hefyd barhau i gynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Y Gymraeg

Y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Fe barhaodd y Strategaeth i ddarparu fframwaith i'r sefydliad asesu a chynllunio ar gyfer diwallu ei anghenion o ran sgiliau dwyieithrwydd trwy ei strwythurau sefydliadol ac i adnabod a datblygu'r sgiliau sydd gan staff i ddiwallu'r anghenion hyn. Caiff niferoedd y staff a ddatganodd bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'u cofnod personol yn 2015-16 eu nodi isod.

Tabl 2a – Sgiliau iaith staff sy'n gallu defnyddio pob sgil yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith neu ym mhob un ohonynt

	Nifer	%
Darllen	1280	23
Siarad	1190	22
Deall	1260	23
Ysgrifennu	1010	18

Tabl 2b – Sgiliau a ddatganwyd gan staff ar draws pob lefel o sgiliau iaith Gymraeg (dechreuwr i hyfedrus)

	Nifer	%
Darllen	3020	55
Siarad	2630	48
Deall	2840	52
Ysgrifennu	2250	41

Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. *Mae ffigyrau islaw 5 wedi cael eu dileu.

Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu. Efallai na fydd cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Mae'r canrannau'n seiliedig ar y cyfanswm cyfrif pennau (5470) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad.

Hyfforddiant Iaith

Adroddir ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg am y flwyddyn academaidd.

Yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng mis Medi 2015 a mis Awst 2016, roedd hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael yn Swyddfeydd mwy Llywodraeth Cymru ac ar draws pob lefel yn y fframwaith dysgu iaith Gymraeg. Dyrannwyd £108,000 ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn trwy'r Rhaglen Ddysgu a ariannwyd drwy'r Gyllideb Hyfforddiant a Datblygu Corfforaethol. Cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu gan Eliesha a Cymraeg i Oedolion, gyda 15 dosbarth yn cael eu darparu ar gyfer 174 o gyfranogwyr, mewn 6 lleoliad ledled Cymru ar sail rhaglen dreigl.

Mae 1 cwrs Gloywi Iaith (cyrsiau iaith Gymraeg ar lefel Hyfedredd sy'n para am wythnos) wedi cael ei ddarparu yng Nghaerdydd.

Fe safodd 75 aelod o staff arholiad CBAC. Roedd y gyfradd llwyddo ymhlith y staff ar lefel mynediad yn 95% (36 wedi llwyddo). Ymhlith y rhai a safodd arholiad ar lefel Sylfaen, roedd y gyfradd llwyddo'n 92% (14 wedi llwyddo a 9 wedi cyflawni rhagoriaeth), ac ar gyfer lefel Canolradd roedd y gyfradd yn 100% (12 wedi llwyddo a 2 wedi cyflawni rhagoriaeth). Fe safodd 1 myfyriwr yr arholiad Lefel Uwch trwy'r ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion gan ennill gradd A.

Roedd ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gael er mwyn i ddysgwyr gael mwy o gyswllt â'r Gymraeg, a chawsant eu trefnu mewn modd a oedd yn cefnogi'r broses ddysgu. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys rhaglen fentora, Coffi a Chlonc – sesiynau galw heibio anffurfiol yn yr awr ginio, gwersi anffurfiol, grwpiau sgwrsio, e-Ddysgu a gwersi dal i fyny. Darparwyd gwybodaeth am weithgareddau iaith Gymraeg y tu allan i oriau gwaith lle gall staff ymarfer eu sgiliau iaith.

Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae Rhaglen Ddysgu Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglenni dysgu gorfodol a statudol ar gael yn Gymraeg. Mae cyfleoedd eraill i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael os gofynnir, er enghraifft:

- Cyflwyniad i Adrodd ar Gyfarfodydd
- Iechyd a Diogelwch i Reolwyr
- Rôl Rheolwyr o ran Lleihau Straen – sydd bellach wedi newid i Gwella Iechyd Meddwl, Lles a Lleihau Straen yn y gweithle
- Sgiliau Cyflwyno
- Cyfweld wrth Recriwtio a Dethol
- Cynefino Cam 1
- Cynefino Cam 2
- Cynefino Cam 3
- Canllawiau Ysgrifennu
- Rheoli Presenoldeb
- Rheoli'r Cylch Perfformiad

Pennod 3

Darparu Adnoddau

Cynrychiolaeth y Gweithlu ar 31 Mawrth 2016

Cyflwynir gwybodaeth eang ac amrywiol am ein gweithlu a'n harferion recriwtio, yn ôl nodweddion gwarchoddedig, yn y bennod hon. Daw'r wybodaeth o'n systemau adnoddau dynol oni nodir yn wahanol.

Mae gan bob aelod o staff gofnod personél cyfrinachol y gall ei ddiweddarau ar-lein. Fel rhan o'r cofnod ar-lein hwn, gofynnir i staff ddarparu gwybodaeth am eu statws amrywiaeth. Mae'r wybodaeth a ddarperir ar sail wirfoddol yn unig ac yn helpu i gynorthwyo'r sefydliad i ddatblygu dealltwriaeth well am amrywiaeth y gweithlu, adnabod materion a chymryd camau gweithredu lle y bo angen.

Yn yr holl wybodaeth a gyflwynir yn yr adran hon, mae 'Dim ymateb' yn cyfeirio at nifer y staff nad ydynt wedi cwblhau cwestiwn

monitro amrywiaeth ac mae 'Gwell gen i beidio â dweud' yn cyfeirio at nifer y staff sydd wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn ymateb i gwestiwn penodol ar ddibenion monitro amrywiaeth. Er mwyn sicrhau a chynnal cyfrinachedd ein staff, mae'r data wedi cael ei dalgrynnu i'r deg agosaf ac mae ffigyrau islaw pump wedi cael eu dileu oni nodir yn wahanol.


Mae'r gweithlu wedi lleihau ond mae'r cymysgedd o ran amrywiaeth ar y cyfan wedi aros yn gymharol ddigyfnewid dros y 12 mis diwethaf (o 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016). Menywod yw'r mwyafrif o'r gweithlu o hyd a gelir gweld cyfraddau cynrychioli isel ar gyfer staff anabl a staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ceir dadansoddiad manylach o'r gweithlu yn **Atodiad A**.

Tabl 3 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd (Rhyw)

Rhywedd		
	Nifer	%
Menywod	3190	58
Dynion	2280	42
Cyfanswm	5470	100


Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf. *Mae ffigyrau islaw 5 wedi cael eu dileu.

Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu. Efallai na fydd cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Ffigur 1 - Y Gweithlu yn ôl Rhywedd (Rhyw)


Tabl 4 – Y Gweithlu yn ôl Oedran

Oedran		
	Nifer	%
16-24	160	3
25-29	340	6
30-34	650	12
35-39	760	14
40-44	760	14
45-49	840	15
50-54	870	16
55-59	660	12
60-64	330	6
65+	100	2
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 2 – Y Gweithlu yn ôl Oedran

Tabl 5 – Y Gweithlu yn ôl Anabledd


Anabledd		
	Nifer	%
Anabl	260	5
Ddim yn Anabl	4860	89
Gwell Gen i Beidio â Dweud*	0	0
Heb Ddatgan	350	6
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 3 – Y Gweithlu yn ôl Anabledd

*Nid yw Gwell Gen i Beidio â Dweud yn opsiwn mwyach ar gyfer nodweddion Anabledd a Statws Priodasol.


Tabl 6 – Y Gweithlu yn ôl Ethnigrwydd

Ethnigrwydd		
	Nifer	%
Gwyn	5050	92
Ethnigrwydd Arall	110	2
Gwell Gen i Beidio â Dweud	210	4
Heb Ddatgan	100	2
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 4 – Y Gweithlu yn ôl Ethnigrwydd


Tabl 7 – Y Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred

Crefydd/Cred		
	Nifer	%
Cristnogaeth	2400	44
Dim Crefydd/Cred	1080	20
Crefydd/Cred Arall	220	4
Gwell Gen i Beidio â Dweud	1630	30
Heb Ddatgan	130	2
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 5 – Y Gweithlu yn ôl Crefydd neu Gred


Tabl 8 – Y Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol		
	Nifer	%
Heterorywiol	4470	82
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	140	3
Gwell Gen i Beidio â Dweud	720	13
Heb Ddatgan	140	3
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 6 – Y Gweithlu yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Tabl 9 – Y Gweithlu yn ôl Statws Priodasol


Priodas a Phartneriaeth Sifil		
	Nifer	%
Priod/Partneriaeth Sifil	2330	43
Sengl	960	18
Statws Arall	410	8
Gwell Gen i Beidio â Dweud*	0	0
Heb Ddatgan	1770	32
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 7 – Y Gweithlu yn ôl Statws Priodasol

*Nid yw Gwell Gen i Beidio â Dweud yn opsiwn mwyach ar gyfer nodweddion Anabledd a Statws Priodasol.


Tabl 10 – Y Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

Beichiogrwydd/Mamolaeth		
	Nifer	%
Nac ydw	5360	98
Ydw	110	2
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 8 – Y Gweithlu yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

Tabl 11 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd Genedigol

Rhywedd Genedigol yr Un Fath		
	Nifer	%
Oedd	920	17
Nac oedd	*	0
Gwell Gen i Beidio â Dweud	20	0
Heb Ddatgan	4530	83
Cyfanswm	5470	100

Ffigur 9 – Y Gweithlu yn ôl Rhywedd Genedigol

Dynion a Menywod yn y Gweithlu

Mae'r wybodaeth am amrywiaeth o'n systemau Adnoddau Dynol yn darparu'r data isod sy'n rhoi gwell dealltwriaeth am y cydbwysedd rhwng y rhywiau ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu rhwng dynion a menywod.

Ceir rhaniad sydd fwy neu lai'n gyfartal drwy'r rhan fwyaf o broffesiynau, er bod rhai, sef Cyllid' Adnoddau Dynol; Cyflawni Gweithredol; Cyflawni Polisi a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys mwy o fenywod. Yn ôl y data, mae menywod hefyd yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser na dynion.

Tabl 12 – Proffesiwn

Proffesiwn	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Cyfathrebu	80	50	130
Economeg	20	30	50
Peirianeg	20	50	70
Rheoli Cyfleusterau	40	50	90
Cyllid	230	170	400
Iechyd	30	10	40
Adnoddau Dynol	150	50	200
Archwilio Mewnol	20	10	30
Rheoli Gwybodaeth/ Llyfrgell	80	80	160
Arolygwyr	90	30	120
Technoleg Gwybodaeth	50	90	140
Gwasanaethau Cyfreithiol	70	50	120
Marchnata	70	20	90
Cyflawni Gweithredol	1000	710	1710
Cynllunio	10	20	30
Cyflawni Polisi	890	630	1520
Caffael a Rheoli Contractau	50	40	90
Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau	90	60	150
Ymchwil Gymdeithasol/ Ymchwil i'r Farchnad	50	20	70
Gwyddoniaeth	20	10	30
Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol	90	20	110
Ystadegau	20	30	50
Syrfewyr	10	30	40
Cyfieithu	30	10	40
Gwasanaethau Milfeddygol	*	*	*
Cyfanswm¹	3190	2280	5470

¹ Efallai na fydd cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Tabl 13 – Gradd

Gradd	Menywod	Dynion	Cyfanswm
SCSPS	0	*	*
SCS3	0	*	*
SCS2	10	20	30
SCS1	50	70	120
EB1	80	110	190
EB2	350	380	730
MB1	670	470	1140
MB2	860	500	1360
MB3	590	400	990
TS	540	320	860
Arall	20	20	40
Cyfanswm¹	3190	2280	5470

Tabl 14 – Math o Gontract

Contract	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Parhaol	3090	2190	5280
Dros Dro	90	90	180
Cyfanswm¹	3190	2280	5470

Tabl 15 – Patrwm Gweithio

Patrwm Gweithio	Menywod	Dynion	Cyfanswm
Llawn-amser	2310	2130	4440
Rhan-amser	870	150	1020
Cyfanswm¹	3190	2280	5470

¹ Efallai na fydd cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu.

Cyflogau

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol. Mae'r archwiliad cyflog cyfartal cyfredol yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2015-16. Mae'r holl ffigyrau a ddarperir yn dangos y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Mawrth 2016, o'i gymharu â 31 Mawrth 2015.

Mae'r archwiliad yn cynnwys dau brawf ar bymtheg sydd wedi'u bwriadu i amlygu meysydd lle ceir risg o ran cyflog cyfartal yn system gyflogau Llywodraeth Cymru i ddynion a menywod sy'n gwneud gwaith cyfartal. Mae'r archwiliad yn ystyried cyflogau dynion a menywod, gweithwyr rhan-amser, y rhaniad rhwng y rhywiau yn y sefydliad ac mewn adrannau, cyflog sylfaenol o fewn graddau, cyflogau dechreuol, dyrchafiad, perfformiad, taliadau ychwanegol a lwfansau, a nodweddion gwarchoddedig.

Roedd yr archwiliad yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ac roedd y risg o ddiffyg cydymffurfio yn amrywio rhwng risg bach a dim risg ym mhob maes ac eithrio un (lwfansau). Mae'r lwfansau yr ystyrir eu bod yn risg yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Cyflog canolrifol

Mae'r cyflog canolrifol ar gyfer staff llawn-amser wedi cynyddu i £34,750 (ar 31 Mawrth 2016).

Y bwllch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2016 yn 7.99%. Mae hwn wedi lleihau o 9.16% ar 31 Mawrth 2015. Mae tabl sy'n nodi cyflogau dynion a menywod wedi'i atodi yn Atodiad D.

Ceir nifer o resymau posibl dros y gostyngiad hwn. Yn 2015 fel roddodd Llywodraeth Cymru gytundeb cyflog ar waith a oedd yn cynnwys mesurau i gwtogi ar nifer y codiadau cyflog y mae staff yn eu cael cyn cyrraedd y gyfradd uchaf yn eu band cyflog (y gyfradd gyflog ar gyfer eu rôl). Cymerwyd camau hefyd i addasu'r cydbwysedd rhwng yr holl bwyntiau cynyddrannol. Menywod yw'r mwyafrif (57%) o'r staff yn y graddau y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt.

Fe gynyddodd cyfran y gweision sifil benywaidd ychydig yn 2015-16 gyda nifer o uwch benodiadau (ar y cyd ag ymadawiad nifer o uwch swyddogion gwrywaidd) gan gulhau'r bwllch cyflog ar lefelau uwch weision sifil.

Gweithgarwch Recriwtio

Mae'r gweithgarwch recriwtio a ddangosir yn cynnwys yr holl benodiadau ffurfiol (allanol a mewnol) a symudiadau mewnol (yr ymgeisiwyd amdanynt neu fel arall) y casglwyd data yn eu cylch. Gall symudiadau mewnol amrywio o staff yn manteisio ar gyfer i ddatblygu mewn rhan arall o'r sefydliad i drosglwyddiad llorweddol ar yr un radd. Nid yw gwybodaeth am amrywiaeth ar adeg ymgeisio'n cael ei throsglwyddo'n awtomatig i benodiadau ac felly gall y cyfraddau hunanddatgan amrywio rhwng ceisiadau ac apwyntiadau. Gall staff symud fwy nag unwaith yn ystod cyfnod adrodd, felly mae'r golofn bellaf ar y dde'n adrodd ar nifer yr unigolion sydd wedi newid swydd.

Tabl 16a

Rhywedd						
	Penodiadau		Newidiadau		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Menywod	70	60	970	64	900	64
Dynion	50	40	550	36	520	36
Cyfanswm	120	100	1520	100	1420	100

Tabl 16b

Oedran						
	Penodiadau		Newidiadau		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
16-24	30	22	70	5	90	6
25-29	20	15	170	11	160	11
30-34	20	15	290	19	270	19
35-39	10	12	280	18	240	17
40-44	10	9	190	12	170	12
45-49	10	11	220	14	190	14
50-54	10	8	170	11	160	11
55-59	10	4	110	7	100	7
60-64	10	4	30	2	30	2
65+	0	0	*	0	*	0
Cyfanswm	120	100	1520	100	1520	100

Tabl 16c

Anabledd						
	Penodiadau		Newidiadau		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Anabl	10	8	60	4	60	4
Ddim yn Anabl	100	80	1360	90	1270	89
Gwell Gen i Beidio â Dweud	*	2	50	3	40	3
Heb Ddatgan	10	10	40	3	50	4
Cyfanswm	120	100	1520	100	1420	100

Tabl 16d

Ethnigrwydd						
	Penodiadau		Newidiadau		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Gwyn	90	73	1400	92	1290	91
Ethnigrwydd Arall	10	4	40	2	40	3
Gwell Gen i Beidio â Dweud	*	1	60	4	40	3
Heb Ddatgan	30	23	30	2	50	4
Cyfanswm	120	100	1520	100	1420	100

Tabl 16e

Crefydd/Cred						
	Penodiadau		Newidiadau		Unigolion	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cristnogaeth	40	33	580	38	550	39
Dim Crefydd/Cred	40	37	390	26	370	26
Crefydd/Cred arall	*	3	60	4	60	4
